




“Gydol fy oes, alla i ddim cofio bod yn rhan o unrhyw beth lle gallwn i synbwyo gwaith yr Ysbryd mor eglur” Yr Archesgob Justin Welby


Mae'r Archesgob Justin yn gobeithio gweld pob Eglwys yn ymuno yn y don fyd-eang hon o weddi o 25 Mai – 4 Mehefin 2017. Dyma sut gallwch chi gymryd rhan:

1. Beth gallwch chi wneud?



Mae cynifer o syniadau ar gyfer gwahanol ffyrdd o weddio gydag adnoddau i'w lawrwytho am ddim. Dewch i weld, ac rydyn ni'n siŵr y dewch chi o hyd i rywbeth addas i chi. Mae gweddïau a syniadau ar gael i chi eu gweld neu eu lawrwytho, neu ewch i www.cpo.org.uk/thykingdomcome lle cewch help ymarferol i weddio dros bum aelod o'r teulu, cymdogion neu ffrindiau, o fand lledr i fwg fydd yn eich atgoffa i weddio adeg egwyl!

2. Gwnewch i'ch golau ddisgleirio



Mae Iesu yn ein galw i fod yn oleuni'r byd. Trwy ymuno ag #AddoGweddïo yma a gwneud i'ch golau ddisgleirio ar ein map, gallwch ddangos eich bod chi'n ymuno yn y don fyd-eang o weddi, ac ysbrydoli eraill i ymuno! Yn ystod yr wythnosau nesa byddwn ni'n cadw mewn cysylltiad, ac yn anfon fideos ac adnoddau atoch chi i'ch annog a'ch ysbrydoli.

3. Rhowch wybod i ni, ac ysbrydoli eraill

Ymunwch â'r gymuned fyd-eang ar-lein a rhannwch y pethau rydych chi'n eu gwneud ar y cyfryngau cymdeithasol. Efallai y dewch chi o hyd i ddiwyddiad neu weithgaredd yn agos atoch chi trwy fynd i www.thykingdomcome.global.

Mae fideos gwych ar gael i'w defnyddio mewn gwasanaethau a'u rhannu yn eich rhwydweithiau yn:

- /thykingdomcome
- thykingdomcomeglobal

Cysylltwch â ni ar unrhyw rai o'r llwyfannau hyn:


- @ThyKingdomComeUK
- @thykingdom_come
- @Pledge2Pray

Peidiwch ag anghofio defnyddio'r hashnod #AddoGweddïo a #DeledDyDeyrnas ym mhob postiad er mwyn i ni fedru helpu i hyrwyddo eich gwaith.



#ADDOGWEDDIO

4. Byddwch yn ddisgwylgar



Wrth i ni weddio 'Deled Dy Deyrnas', gadewch i ni ystyried beth gallai Duw fod yn ein galw i'w wneud yn ein heglwysi, ein cartrefi a'n bywydau ein hunain. Rydyn ni'n gobeithio eich cynnal ar y daith barhaus hon fydd yn ein helpu ni i gyd i fod yn dystion i Iesu. Cadwch lygad ar agor am adnoddau newydd ar hyd Deled Dy Deyrnas i helpu pobl i [rannu eu ffydd](#).